

Cynnwys / Contents

Rhaglen 20140715 Programme	2
Cofnodion y cyfarfod diwethaf	4
Minutes of previous meeting	6
Eitem 6 Adroddiad - Cyllideb Refeniw 2014-15 Adolygiad Chwarter 1	8
Eitem 6 Atodiad 1	11
Eitem 6 Atodiad 2	12
Eitem 7 Adroddiad - Rhaglen Gyfalaf 2014-15 Adolygiad Chwarter 1af	27
Eitem 8 Adroddiad - Trefniadau Rhanbarthol i Ddiogelu Plant ac Oedolion	32
Eitem 8 Atodiad 1	36
Item 6 Report - Revenue Budget 2014-15 1st Quarter Review	41
Item 6 Appendix 1	44
Item 6 Appendix 2	45
Item 7 Report - Capital Programme 2014-15 1st Quarter Review	60
Item 8 Report - Regional and Local Arrangements to Safeguard Children and Adults	65
Item 8 Appendix 1	69

CABINET

CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD/DATE	Dydd Mawrth, 15 Gorffennaf, 2014 <i>Tuesday, 15 July, 2014</i>
AMSER/TIME	1pm
LLEOLIAD/LOCATION	Siambwr Hywel Dda Swyddfa'r Cyngor/ <i>Council Offices</i> Stryd y Jêl Gwynedd
PWYNT CYSWLLT/CONTACT POINT	Rhian Tomos 01286 679490 rhiantomos@gwynedd.gov.uk

AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD CABINET MEMBERS

Aelodau/ Members
Y Cyng./Coun. Dyfed Edwards (Arweinydd / <i>Leader</i>)
Y Cyng./Coun. Gareth Thomas
Y Cyng./Coun. Peredur Jenkins
Y Cyng./Coun. John Wynn Jones
Y Cyng./Coun. W Gareth Roberts
Y Cyng./Coun. Ioan Thomas
Y Cyng./Coun. Paul Thomas
Y Cyng./Coun. John Wyn Williams
Y Cyng./Coun. R H Wyn Williams

RHAGLEN/PROGRAMME

	Eitem Item	Cyflwynir gan Submitted by	Swyddog Officer
1	Ymddiheuriadau <i>Apologies</i>		
2	Datgan Buddiant Personol <i>Declaration of Personal Interest</i>		
3	Materion Brys <i>Urgent Items</i>		
4	Materion yn codi o Bwyllgorau Craffu <i>Matters arising from Scrutiny Committees</i>		
5	Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Gorffennaf 1af 2014 <i>Minutes of the meeting held July 1st 2014</i>		
6	Cyllideb Refeniw 2014/15 - Adolygiad Chwarter 1af <i>Revenue Budget 2014/15 – 1st Quarter Review</i>	Y Cyng. / <i>Coun.</i> Peredur Jenkins	Dafydd Edwards
7	Rhaglen Gyfalaf 2014/15 - Adolygiad Chwarter 1af <i>Capital Programme 2014/15 – 1st Quarter Review</i>	Y Cyng. / <i>Coun.</i> Peredur Jenkins	Dafydd Edwards
8	Trefniadau Rhanbarthol i Ddiogelu Plant ac Oedolion <i>Regional and Local Arrangements to Safeguard Children and Adults</i>	Y Cyng. / <i>Coun.</i> R H Wyn Williams	Morwena Edwards

**CABINET Y CYNGOR
COFNODION
Gorffennaf 1af 2014**

Yn bresennol – Y Cynghorydd Dyfed Edwards (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr – Gareth Thomas, Ioan Thomas, Paul Thomas, Peredur Jenkins, John Wynn Jones, R H Wyn Williams, W Gareth Roberts, John Wyn Williams.

Hefyd yn bresennol – Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Alwyn Evans Jones (Pennaeth Adnoddau Dynol), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr), Rhian Tomos (Arweinydd Tîm Cefnogi'r Cabinet).

Ar gyfer Eitem 8: Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Rhoslyn Prys (Rheolwr Gwireddu Plant a Phobl Ifanc)

1. CROESAWU/YMDDIHEURIADAU

Croesawyd aelodau Cabinet, swyddogion ac aelodau'r Wasg i'r cyfarfod.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Gareth Roberts fuddiant personol yn eitem rhif 6 oherwydd bod ei ferch wedi dechrau gweithio gyda'r Cyngor yn ddiweddar. Roedd yr Aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr Eitem.

Datganodd y Cynghorydd Gareth Thomas fuddiant personol yn eitem rhif 6 oherwydd bod ei fab yng nghyfraith yn gweithio i'r Cyngor. Roedd yr Aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr Eitem.

Datganodd y swyddogion Alwyn Evans Jones, Rhun ap Gareth, Dafydd Edwards a Rhian Tomos fuddiant personol yn eitem 6 oherwydd eu bod yn gyflogedig gan y Cyngor ond oherwydd bod eu presenoldeb yn hanfodol yng nghyfarfod y Cabinet, ni adawsant y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr Eitem. Datganodd Morwena Edwards fuddiant yn yr eitem yn ogystal ac fe adawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth.

3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw faterion bryd.

4. MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o Bwyllgorau Craffu.

5. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar Mehefin 10fed 2014.

6. CYNLLUN IAWNDAL DISWYDDO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau.

PENDERFYNIAD:

Diwygio Cynllun lawndal Diswyddo'r Cyngor i uchafswm o 45 wythnos a 30 wythnos i'r rhai sy'n 55 oed a throsodd ac sy'n cael rhyddhau eu pensiwn. Yn weithredol o'r 1^{af} o Dachwedd 2014.

7. CYMORTH TUAG AT DRETH CYNGOR I BENSIYNWYR 2014/15

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau.

PENDERFYNIAD:

Dosrannu'r gyllideb £150,000 i gynorthwyo pensiynewyr cymwys i dalu Treth Cyngor yn 2014/15, trwy leihau'r swm o dreth taladwy (cwtogiad hyd at £95) i'r unigolion sydd ar 1 Gorffennaf 2014 –

- yn 60 oed neu fwy ac yn derbyn pensiwn gwladol,
- yn gyfrifol am dreth cyngor sydd â wnelo â'u hunig neu brif gartref, ac
- yn derbyn gostyngiad rhannol (ar sail incwm) tuag at gyfrifoldeb treth cyngor blynyddol, ond ddim gostyngiad llawn (h.y. yn talu elfen o'r dreth).

8. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Paul Thomas, Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc.

PENDERFYNIAD:

- Derbyn adroddiad yn amlinellu gwaith y Panel Rhiant Corfforaethol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Cymeradwyo'r rhaglen waith ar gyfer datblygu rhaglen waith a strategaeth tair blynedd.

9. BLAENRAGLEN CABINET CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd y blaenraglen gan yr Arweinydd.

PENDERFYNIAD:

Cymeradwyo blaenraglen Cabinet Cyngor Gwynedd.

Dechreuodd y cyfarfod am 1 o'r gloch a daeth i ben am 2 o'r gloch.

CADEIRYDD

**COUNCIL CABINET
MINUTES
1 July 2014**

Present – Councillor Dyfed Edwards (Chairman)
Councillors - Gareth Thomas, Ioan Thomas, Paul Thomas, Peredur Jenkins, John Wynn Jones, R H Wyn Williams, W Gareth Roberts, John Wyn Williams.

Also present – Dafydd Edwards (Head of Finance Department), Alwyn Evans Jones (Head of Human Resources Department), Morwena Edwards (Corporate Director), Rhun ap Gareth (Senior Solicitor), Rhian Tomos (Cabinet Support Team Leader).

For Item 8: Iwan Trefor Jones (Corporate Director), Rhoslyn Prys (Children and Young People Delivery Manager)

1. WELCOME/APOLOGIES

Cabinet members, officers and members of the Press were welcomed to the meeting.

2. DECLARATION OF PERSONAL INTEREST

Councillor Gareth Roberts declared a personal interest in item 6 because his daughter had started work with the Council recently. The Member was of the opinion that it was not a prejudicial interest, and he did not withdraw from the meeting during the discussion on the Item.

Councillor Gareth Thomas declared a personal interest in item 6 because his son-in-law worked for the Council. The Member was of the opinion that it was not a prejudicial interest, and he did not withdraw from the meeting during the discussion on the Item.

The officers, Alwyn Evans Jones, Rhun ap Gareth, Dafydd Edwards and Rhian Tomos declared a person interest in item 6 because they were employed by the Council but as their presence at the Cabinet meeting was essential, they did not withdraw from the Chamber during the discussion on the Item. Morwena Edwards also declared an interest in the item and withdrew from the Chamber during the discussion.

3. URGENT ITEMS

There were no urgent items.

4. MATTERS ARISING FROM SCRUTINY COMMITTEES

There were no matters arising from scrutiny committees.

5. MINUTES

The Chairman signed the minutes of the Cabinet meeting held on 10 June 2014.

6. REDUNDANCY COMPENSATION SCHEME

The report was submitted by Cllr Peredur Jenkins, Cabinet Member for Resources.

DECISION:

To revise the Council's Redundancy Compensation Scheme to a maximum of 45 weeks and 30 weeks for those who are 55 years old and over and who will have their pension released. Effective from 1 November 2014.

7. ASSISTANCE TOWARDS PENSIONERS' COUNCIL TAX 2014/15

The report was submitted by Cllr Peredur Jenkins, Cabinet Member for Resources.

DECISION:

Distribute a budget of £150,000 to assist qualifying pensioners to pay Council Tax in 2014/15, by reducing the sum payable (a reduction of up to £95) to individuals that on 1 July 2014 are -

- 60 years old or over and in receipt of state pension,
- responsible for council tax on his/her sole or main residence, and
- in receipt of partial reduction (income based) towards annual council tax responsibility, but not the full reduction (i.e. paying an element of council tax).

8. ANNUAL REPORT OF THE CORPORATE PARENT PANEL

Submitted - the report by Cllr Paul Thomas, Cabinet Member for Children and Young People.

DECISION:

- Accept the report outlining the work of the Corporate Parent Panel during the last year.
- Approve the work programme for developing a three-year strategy and work programme.

9. GWYNEDD COUNCIL CABINET'S FORWARD WORK PROGRAMME

The forward work programme was submitted by the Leader.

DECISION:

To approve the forward work programme of Gwynedd Council Cabinet.

The meeting commenced at 1pm and concluded at 2pm.

CHAIRMAN

ADRODDIAD I'R CABINET
15 GORFFENNAF 2014

Aelod Cabinet: CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS
AELOD CABINET ADNODDAU

Pwnc: CYLLIDEB REFENIW 2014/15 –
ADOLYGIAD CHWARTER CYNTAF (MEHEFIN 2014)

Swyddog Cyswllt: DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID

1. Y penderfyniad a geisir

1.1 Nodi'r rhagolygon cynnar o sefyllfa cyllideb 2014/15 a gofyn i'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid adrannau perthnasol gymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu rheolaeth, yn arbennig ynglŷn â materion sydd wedi'u nodi yma ac sy'n effeithio cyllidebau'r adrannau Oedolion, Addysg, a Rheoleiddio.

2. Cyflwyniad

2.1 Yn unol â'r drefn arferol, cyflwynir yr adroddiad chwarterol yma ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw 2014/15.

2.2 Yn **Atodiad 1** mae crynhoad o'r sefyllfa fesul adran, ac yn **Atodiad 2** mae manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a meysydd ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol (lle rhagwelir gôr-/tanwariant yn 2014/15 ar sail profiad y chwarter gyntaf).

2.3 Gan ei bod mor fuan yn y flwyddyn, nid yw'r holl dueddiadau gwariant yn eglur, ac mae'r adroddiad ar gyfer y chwarter cyntaf yn dueddol o ganolbwyntio ar faterion sydd wedi dod i'r amlwg ers paratoi'r gyllideb ac unrhyw broblemau o sylwedd sydd wedi amlygu eu hunain yn y cyfamser.

2.4 O ganlyniad, gan fod yr adroddiad yma wedi'i baratoi ar sail eithriadau, **NID** yw'r cyfanswm gwahaniaethau yn Atodiad 1 yn proffwydo £2.37m o orwariant gan y Cyngor yn 2014/15. Diau y bydd penawdau cyllideb eraill yn tanwario eleni a gwrthbwyso rhai o'r problemau sydd wedi'u nodi yma.

2.5 Mae'n gynnar i ddod i ganlyniad pendant am y perfformiad ariannol tebygol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Er hynny, mae tueddiad tuag at orwariant ar rai penawdau gwariant (ac incwm) eisoes, sy'n awgrymu risg o orwariant go sylweddol mewn 3 adran. Er hynny, ar hyn o bryd, cadarnhaf fod yr adrannau perthnasol yn cymryd camau i geisio rheoli cyllideb eleni.

3. Casgliadau am Gyllidebau'r Adrannau

- 3.1 Yn 2014/15, does dim arwyddion cynnar i awgrymu y bydd gor na than wariant o sylwedd yn yr Adrannau a'r Gwasanaethau ni chrybwyllir yn Atodiadau 1 a 2, sef yr Adrannau Adnoddau Dynol, Cyllid, a Strategol a Gwella. Yn yr un modd, lle ni chrybwyllir rhai Gwasanaethau, megis holl wasanaethau Priffyrdd oddigerth Gwastraff, ni ddisgwylir gwahaniaethau sylweddol rhwng y gyllideb a'r gwir wariant.
- 3.2 Fel adroddwyd eisoes ar sail tueddiadau yn chwarter olaf 2013/14, mae rhai penawdau cyllideb 2014/15 yn yr Adran Oedolion, lechyd a Llesiant (ar dudalennau 1-4 o Atodiad 2) lle mae rhagolygon cynnar o orwariant (cyfanswm net oddeutu £1m). Fodd bynnag, gan fod yr adolygiad yma mor gynnar yn y flwyddyn, dylid trin y ffigyrau yma fel "rhybudd cynnar" o bosibiliadau yng nghyd-destun cyfanswm cyllideb adrannol o £50m (mae'r gwahaniaeth £1,087,000 yn 2.15% o'r gyllideb). Hefyd, wrth gwrs, mae nifer o faterion eisoes yn destun adolygiadau cynhwysfawr, ac eraill dan sylw yn adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Cyngor llawn 17 Gorffennaf.
- 3.3 Gwyddom eisoes fod angen rhesymoli'r gyllideb cludiant (bysus) yn yr Adran Rheoleiddio (tudalen 12 o Atodiad 2). Mae'r Cabinet wedi trafod hyn eisoes, a bwriedir penderfynu ar y ffordd ymlaen yn Hydref.
- 3.4 Mae rhagolygon o orwariant yn yr adrannau Addysg, Economi a Chymuned, ac Ymgynghoriaeth ond mae'r rhagamcan sydd yma o sefyllfa cyllideb 2014/15 yn un cynnar ar sail eithriadau, ac mae camau eisoes ar droed i ddatrys y sefyllfa.

4. Camau nesaf ac amserlen

- 4.1 Disgwylir i'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid perthnasol barhau i gadw llygad ar y materion amlygwyd yn Atodiad 2.
- 4.2 Adroddir ymhellach gyda mwy o fanylder a mwy o sail i'n rhagamcanion wedi dysgu o brofiad yr ail chwarter, gan gofio fod cynnwys yr adroddiad yma wedi'i baratoi **cyn** diwedd y chwarter cyntaf.

Barn yr aelod lleol

Dim yn berthnasol

Barn y swyddogion statudol

Y Prif Weithredwr:

Fel y mae'r adroddiad yn awgrymu, mae'n fuan iawn i ddod i gasgliadau ystyrion am y rhagolygon ar gyfer gweddill y flwyddyn ar sail yr wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd Aelodau Cabinet a Phenafiaid yn dymuno cadw llygad barcud ar unrhyw dueddiadau sydd yn achosi pryder buan. Yn amlwg, mae rheolaeth gadarn ar ein gwariant refeniw hyd yn oed yn bwysicach nag arfer a ninnau mewn cyfnod lle mae adnoddau yn brin ac yn prinhau fwy eto.

Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

Atodiadau

Atodiad 1

Atodiad 2

Cyllideb Refeniw 2014/15 - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

	Adolygiad Chwarter 1		
	Gor / (Tan) Wariant Gros 2014/15	Trosglwyddiad i/(o) Gronfeydd neu Balansau	Gor/ (Tan) Wariant Net
	£ '000	£ '000	£ '000
Oedolion, Iechyd a Llesiant	1,087	0	1,087
Plant a Theuluoedd	32	0	32
Addysg	419	0	419
Economi a Chymuned	107	0	107
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	44	0	44
Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)	460	0	460
Ymgynghoriaeth Gwynedd	215	0	215
Democratiaeth a Chyfreithiol	26	0	26
Cyllidebau Corfforaethol	(19)	0	(19)
Cyfansymiau Gwahaniaethau (net)	2,371	0	2,371

CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - CHWARTER CYNTAF

Crynhoad Sefyllfa Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaeth Pobl Hŷn	18,739	18,739	19,125	386	0	386
Gwasanaethau Anabledd Corff	2,087	2,087	2,021	(66)	0	(66)
Gwasanaethau Anabledd Dysgu	13,249	13,297	13,721	424	0	424
Gwasanaethau Iechyd Meddwl	3,318	3,318	3,581	263	0	263
Gwasanaeth Darparu	0	(3)	114	117	0	117
Gwasanaeth Tai	5,020	5,153	5,116	(37)	0	(37)
Cyfanswm Gwahaniaethau				1,087	0	1,087

Cyffredinol

Mae'r rhagolygon diweddaraf yn adlewyrchu darlun a adroddwyd diwedd 2013/14, sef fod y tafluniad diwedd flwyddyn yn parhau, ac am arwain at wariant ychwanegol adrannol o £1,087k yn 2014/15, heblaw cymerir camau i atal y tueddiad.

Bydd angen:-

- Ystyriaeth bellach i'r rhesymau tu ôl i'r twf mewn nifer o achosion Gwasanaeth Pobl Hŷn - Preswyl a Nyrsio - Cartrefi Annibynnol
- Canlyniad yr adolygiad o'r pecynnau gwasanaeth perthnasol ar gyfer Gwasanaeth Dydd a Chynlluniau Cefnogol
- Cadarnhad os yw'r newidiadau diweddar a welwyd ar y Gwasanaeth Iechyd Meddwl yn barhaol neu beidio.

Disgwylir canlyniad gwaith pellach gan yr Adran Oedolion ar y materion uchod, gyda'r bwriad o'i ymgorffori (ac argymell fel yn briodol) yn yr adolygiad ail chwarter.

Mae sawl adolygiad adrannol eisoes wedi nodi'r gwir angen i newid yn y maes, ac mae'r darlun cyllidol cynnar yma o 2014-15 yn tanlinellu'r angen i symud ymlaen yn fuan gyda'r camau i drawsnewid.

CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - CHWARTER CYNTAF**ADRAN: OEDOLION, IECHYD A LLESIANT****Maes:- Gwasanaeth Pobl Hŷn**

Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
18,739	18,739	19,125	386		386

Sefyllfa sy'n cynnwys gorwariant o £118k ar Ofal Cartref (sef gwariant uwch o £80k a gostyngiad incwm o £38k), ac yn adlewyrchu yn arbennig cynnydd mewn pecynnau a welwyd yn ardal Dwyfor yn ystod 2013-14 (sy'n destun adolygiad gan yr Adran), a thanwariant o (£33k) mewn Cymorthion ac Addasiadau.

Hefyd, rhagwelir gorwariant o £286k ar Breswyl a Nyrsio - Cartrefi Annibynnol, oherwydd cynnydd yn y nifer achosion.

Bydd angen ystyriaeth bellach i'r rhesymau tu ôl i'r twf mewn nifer achosion ac argymell ymhellach ar y mater yn yr adolygiad ail chwarter.

Maes:- Gwasanaethau Anabledd Corff

Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
2,087	2,087	2,021	(66)		(66)

Sefyllfa tanwariant net o (£66k) sy'n cynnwys tanwariant o (£109k) ar Breswyl a Nyrsio, gorwariant o £24k ar Lety Cefnogol, a gorwariant o £18k ar Ofal Cartref.

CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - CHWARTER CYNTAF**ADRAN: OEDOLION, IECHYD A LLESIAINT****Gwasanaeth Oedolion****Maes:- Gwasanaethau Anabledd Dysgu**

Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
13,249	13,297	13,721	424		424

Rhagwelir gorwariant sylweddol o £424k ar y pennawd yma, yn cynnwys gorwariant o £119k ar Breswyl a Nyrsio - Cartrefi Annibynnol yn dilyn trosglwyddiad o ddau achos o'r Gwasanaeth Iechyd, gorwariant o £102k ar Lety Cefnogol oherwydd achosion ychwanegol, gorwariant o £333k ar Wasanaethau Dydd a thanwariant o (£107k) ar Gynlluniau Cefnogol. Fe welwyd fod y newidiadau sylweddol i Wasanaethau Dydd a Chynlluniau Cefnogol o ganlyniad i'r lefel o becynnau a gomisiynwyd yn ystod 2013/14, ac mae'r Adran, ar y cyd â'r darparwr mewnol a'r sector annibynnol, yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r holl becynnau i geisio cyflawni arbedion sylweddol yn y tymor canolig. Adroddir ymhellach yn yr adolygiad ail chwarter ar ganlyniad yr adolygiad, ynghyd a'r tebygolrwydd o unrhyw ostyngiad yn y tafluniad diweddar.

Maes:- Gwasanaethau Iechyd Meddwl

Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
3,318	3,318	3,581	263		263

Rhagwelir sefyllfa gorwariant o £263k ar y pennawd yma, sy'n cynnwys gorwariant o £175k ar Breswyl a Nyrsio oherwydd trosglwyddiad dau achos o'r Gwasanaeth Iechyd, ychwanegiad o dri achos newydd ac effaith ail-leoli un achos oedd mewn gofal yn barod. Cynhwysir hefyd gorwariant o £134k ar Lety Cefnogol, sydd yn faes sy'n destun adolygiad mewnol o'r trefniadau comisiynu, a thanwariant o (£45k) ar Gefnogaeth a Chynlluniau Eraill.

CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - CHWARTER CYNTAF**ADRAN: OEDOLION, IECHYD A LLESIANT****Gwasanaeth Oedolion****Maes:- Gwasanaeth Darparu**

Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
0	(3)	114	117		117

Rhagwelir gorwariant o £117k, yn bennaf oherwydd gorwariant o £77k ar Ofal Preswyl (sy'n cynnwys gorwariant ychwanegol o £27k oherwydd apêl cyflogaeth, fydd yn destun argymhelliad mewn adolygiad cyllideb dilynol), ynghyd â gorwariant o £40k ar Ofal Cymunedol.

Maes:- Gwasanaeth Tai

Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
5,020	5,153	5,116	(37)		(37)

Rhagwelir tanwariant o (£37k), yn cynnwys tanwariant o (£17k) ar Wasanaeth Digartrefedd, ac arbedion staffio unwaith ac am byth o (£20k).

CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - CHWARTER CYNTAF

Crynhoad Sefyllfa Adran Plant a Theuluoedd	Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Lleoliadau	7,696	7,685	7,612	(73)	0	(73)
Gwasanaeth ôl-16	970	970	1,075	105	0	105
Cyfanswm Gwahaniaethau				32	0	32

CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - CHWARTER CYNTAF**ADRAN: PLANT A THEULUOEDD****Lleoliadau**

Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
7,696	7,685	7,612	(73)		(73)

Rhagwelir tanwariant net o (£73k), sy'n cynnwys tanwariant o (£99k) ar Leoliadau All-Sirol, oherwydd llai o achosion na'r disgwyl yn y chwarter cyntaf, a gorwariant o £26k ar Faethu drwy Asiant.

Gwasanaeth ôl-16

Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
970	970	1,075	105		105

Rhagwelir gorwariant o £105k, sy'n adlewyrchu nifer o leoliadau eithaf drud yn ystod chwarter olaf 2013/14. Hefo trefniadau comisiynu newydd bellach mewn lle, disgwylir i'r gwariant yma leihau fel mae'r flwyddyn yn mynd ymlaen.

CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - CHWARTER CYNTAF

Crynhoad Sefyllfa Adran Addysg	Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cludiant	4,505	4,257	4,377	120	0	120
Diswyddo ac Ymddeol Cynnar	342	342	491	149	0	149
Unedau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	947	947	1,097	150	0	150
Cyfanswm Gwahaniaethau				419	0	419

CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - CHWARTER CYNTAF**ADRAN: ADDYSG****Maes:- Cludiant**

Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
4,505	4,257	4,377	120		120

Am y tro rhagwelir sefyllfa gorwariant o £120k, yn bennaf oherwydd £100k o gostau uwch hefo bysus ysgolion. Hefyd, amcangyfrifir gostyngiad o £20k mewn derbyniad incwm o gludiant ôl-16. Adroddir ymhellach ar y sefyllfa, gydag argymhelliad pe bai'n briodol, yn yr adolygiad ail chwarter.

Maes:- Diswyddo ac Ymddeol Cynnar

Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
342	342	491	149		149

Sefyllfa gorwariant yn adlewyrchu cost diswyddo/ymddeol cynnar mewn ysgolion lle bu gostyngiad mewn niferoedd disgyblion. Mae'r Adran yn bwriadu defnyddio cronfa benodol sydd wrth gefn i ariannu'r gorwariant.

Maes:- Unedau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
947	947	1,097	150		150

Am y tro, mae un canolfan wedi cau, ac y sgîl hynny rhagwelir amrywiol ymhlygiadau ariannol perthnasol yn arwain at orwariant o £150k erbyn diwedd 2014/15. O ran datrysiad, rhoddir ystyriaeth bellach i'r sefyllfa yma yn yr adolygiad ail chwarter.

CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - CHWARTER CYNTAF

Crynhoad o Sefyllfa'r Adran Economi a Chymuned	Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cefnogi Busnes	126	106	136	30	0	30
Cyfleusterau Hamdden	3,010	2,984	3,061	77	0	77
Cyfanswm Gwahaniaethau				107	0	107

CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - CHWARTER CYNTAF**ADRAN: ECONOMI A CHYMUNED****Maes:- Cefnogi Busnes**

Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
126	106	136	30		30

Eleni, am y tro rhagwelir gostyngiad incwm o £30k mewn rhent am Unedau Diwydiannol, er gwaethaf fod incwm 2013/14 wedi bod (£20k) yn uwch na'r targed.

Maes:- Cyfleusterau Hamdden

Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
3,010	2,984	3,061	77		77

Rhagwelir gorwariant net o £77k, yn cynnwys colled incwm o £50k o werthiannau bwydydd mewn canolfannau, ynghyd a chostau cyflogaeth ychwanegol un tro o £27k.

CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - CHWARTER CYNTAF**ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL****Maes Gwastraff**

Maes:- **Casglu Gwastraff ac
Ailgylchu**

Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
4,008	4,008	4,052	44		44

Am y tro, rhagwelir gorwariant posib ar y pennawd yma, yn cynnwys gorwariant o £70k ar Gasglu Gwastraff oherwydd llithriad yn y rhaglen arbedion, ynghyd â thanwariant un-tro (£26k) ar Ailgylchu.

CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - CHWARTER CYNTAF**ADRAN: RHEOLEIDDIO****Maes:-****Cludiant Integredig**

Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
1,790	1,770	2,230	460		460

Rhagwelir gorwariant sylweddol o £460k ar y pennawd yma, ac sy'n tarddu o sawl cyfeiriad gan gynnwys, gostyngiad mewn grant Trafnidiaeth Leol o £223k (disgwylir cynigion yr Adran Rheoleiddio i arbed swm cyfatebol trwy resymoli'r llwybrau bws cyfredol), gwariant uwch o £209k o ganlyniad i benodi contractwyr newydd i weithredu teithiau cyn gontractwr, gorwariant net o £62k oherwydd nifer o addasiadau eraill i deithiau, ynghyd â thanwariant o (£34k) o fân arbedion a rhewi rhai cyllidebau eraill.

Mae gweithgor o'r Cabinet wedi ei sefydlu gyda'r bwriad, mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, i sefydlu meini prawf priodol i alluogi asesu cytundebau teithiau, gyda'r canlyniadau i'w cyflwyno i'r Cabinet yn Hydref, i'w blaenoriaethu ac i alluogi addasu'r ddarpariaeth gyllidol berthnasol fel yn briodol.

CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - CHWARTER CYNTAF**ADRAN: YMGYNGHORIAETH****Maes:-****Gwasanaeth
Ymgynghoriaeth (Ffyrdd
a Pheirianeg)**

Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
(305)	(267)	(52)	215		215

Er gwelwyd llwyddiant diweddar i ddenu incwm ffioedd o sawl cyfeiriad, am y tro, ni ellir cadarnhau rhai ffynonellau incwm eraill, er bod yr Adran Ymgynghoriaeth yn ffyddiog y gellir cadw o fewn y gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

I ddarparu ar gyfer posibilrwydd o fethu cyflawni'r targed incwm yn gyflawn, mae'r Adran Ymgynghoriaeth hefyd yn cwblhau trefniadau wrth gefn fyddai'n cynnwys adolygu'r strwythur staffio presennol.

CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - CHWARTER CYNTAF**ADRAN: DEMOCRATIAETH A CHYFRIETHIOL****Maes:- Uned Argraffu**

Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
(70)	(70)	(44)	26		26

Am y tro rhagwelir sefyllfa gorwariant o £26k oherwydd gostyngiad mewn derbyniad incwm.

CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - CHWARTER CYNTAFCYLLIDEBAU CORFFORAETHOL

Maes:- Debyniad Llog Net

Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
0	0	(19)	(19)		(19)

Rhagolwg sydd yn groes i'r patrwm a welwyd mewn blynyddoedd diweddar. Am y tro, amcangyfrifir derbyniad incwm ychwanegol o (£19k) eleni.

ADRODDIAD I'R CABINET

15 GORFFENNAF 2014

Aelod Cabinet: CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS – AELOD CABINET ADNODDAU

Pwnc: RHAGLEN GYFALAF 2014/15 - ADOLYGIAD CHWARTER GYNTAF
(30 MEHEFIN 2014)

Swyddog Cyswllt: DAFYDD L EDWARDS – PENNAETH CYLLID

Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad y chwarter gyntaf (sefyllfa 30 Mehefin 2014) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 2.2 – 2.4 o'r adroddiad, sef:

- cynnydd £4,216,000 mewn defnydd o grantiau,
 - cynnydd £345,643 mewn defnydd o gyfraniad referniw, a
 - cynnydd £223,912 mewn defnydd o gronfeydd.
-

Cyflwyniad / Crynodeb

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o broses monitro'r gyllideb 2014/15. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen ddiwygiedig a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae'r adroddiad mewn 3 rhan:

Rhan 1: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £89.6m am y 3 blynedd 2014/15 – 2016/17.

Rhan 2: Eglurhad o ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £4.8m ers y gyllideb agoriadol, ac sy'n cynnwys derbyniad grantiau ychwanegol o £4.2m.

Y Cabinet sydd wedi'i awdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 1) a'i ariannu (rhan 2).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth.

Rhan 3: Symudiadau o 2014/15 i 2015/16, a phroffil gwariant.

Prif Gasgliadau:

- Mae cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi dros £48m yn 2014/15, gyda £19.7m (£4.2m ychwanegol ers yr adolygiad blaenorol) wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.
- Mae'r gwariant sydd angen i gyflawni cynllun Pont Briwet (Adran Rheoleiddio) eisoes wedi cynyddu a gall cynnydd pellach olygu cyfraniad o adnoddau'r Cyngor.

Rhesymau dros argymell y penderfyniad

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario cyfalaf, a rhaid i'r Cabinet ffurfiol gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2014/15 - 2016/17.

Ystyriaethau perthnasol

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

Camau nesaf ac amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

Barn yr Aelod Lleol

Dim yn berthnasol.

Barn y Swyddogion Statudol

Y Prif Weithredwr:

Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad.

Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

Atodiad

Adroddiad manwl, rhan 1-3, ar dudalennau 3-5.

1 RHAGLEN GYFALAF 2014/15 i 2016/17

1.1 Gweler isod gymhariaeth o'r rhaglen gyfalaf hyd at ddiwedd Mehefin 2014 yn erbyn y gyllideb wreiddiol:

SYMUDIAD O'R GYLLIDEB AGORIADOL I DDIWEDD Y CHWARTER CYNTAF

	CYLLIDEB AGORIADOL				ADOLYGIAD DIWEDD MEHEFIN				CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB AGORIADOL
	2014/15	2015/16	2016/17	CYFANSWM	2014/15	2015/16	2016/17	CYFANSWM	
ADRAN	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Adnoddau Dynol	109	400	0	509	109	400	0	509	0
Addysg	8,020	15,185	12,915	36,120	8,020	15,185	12,915	36,120	0
Cyllid	1,010	561	0	1,571	810	761	0	1,571	0
Economi a Chymuned	7,423	100	200	7,723	7,417	439	200	8,056	333
Tai	2,539	2,000	0	4,539	2,656	2,000		4,656	117
Oedolion, Iechyd a Llesiant - Eraill	1,644	96	0	1,740	2,078	397	0	2,475	735
Plant a Theuluoedd	0	0	0	0	325	0	0	325	325
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	8,987	3,822	1,672	14,481	8,311	3,822	1,672	13,805	(676)
Rheoleiddio	14,609	3,458	58	18,125	17,980	3,458	58	21,496	3,371
Ymgynghoriaeth	35	18	0	53	616	18	0	634	581
CYFANSWM	44,376	25,640	14,845	84,861	48,322	26,480	14,845	89,647	4,786

2 NEWIDIADAU I'R FFYNONELLAU ARIANNU

2.1 Mae cynnydd o £4.786m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers sefyllfa'r gyllideb agoriadol. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

ARIANNU	CYLLIDEB AGORIADOL			ADOLYGIAD DIWEDD MEHEFIN			CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB AGORIADOL £000
	2014/15	2015/16	2016/17	2014/15	2015/16	2016/17	
	£000	£000	£000	£'000	£'000	£000	
Benthyca gyda chefnogaeth	6,630	6,630	6,543	6,630	6,630	6,543	0
Benthyca heb gefnogaeth	9,415	7,272	1,627	9,415	7,272	1,627	0
Grantiau a Chyfraniadau	15,773	5,389	5,461	19,650	5,728	5,461	4,216
Derbyniadau Cyfalaf	1,839	930	0	1,839	930	0	0
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	2,519	2,378	0	2,865	2,378	0	346
Cronfa Cyfalaf	3,976	1,660	200	3,475	2,161	200	0
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	4,224	1,381	1,014	4,448	1,381	1,014	224
CYFANSWM	44,376	25,640	14,845	48,322	26,480	14,845	4,786
CYFANSWM 3 MLYNEDD			84,861			89,647	

2.2 Grantiau a Chyfraniadau

Cynnydd net o £4,216,000 yn y dull yma o ariannu, yn cynnwys:-

- Gwelliant Ffordd A493 Pontbren i Nantygwenlli (Priffyrdd a Bwrdeistrefol) - ychwanegiad £950,000 o Grant Trafnidiaeth tuag at y cynllun.
- Pont Briwet (Rheoleiddio) - ychwanegiad £840,000 o Grant Trafnidiaeth tuag at y cynllun.
Oherwydd cymhlethdodau arbennig hefo'r cynllun yma, ynghyd â'r gwahanol ffynonellau ariannu perthnasol, fe allai unrhyw gynnydd yng nghost y cynllun yn ei gyfanrwydd olygu fod angen adnabod cefnogaeth ariannol bellach er mwyn cwblhau'r gwaith. Mae'r Adran Rheoleiddio yn cydnabod y gallai hyn arwain at bwysau ariannol pellach ar y Cyngor, ond hefyd yn ceisio sicrhau cefnogaeth ariannol o wahanol ffynonellau eraill i liniaru ar unrhyw risg ariannol posib.
- Cynllun Ffordd A496, Cyffordd Maentwrog i Blaenau Ffestiniog (Rheoleiddio) - ychwanegiad £260,000 o Grant Trafnidiaeth tuag at y cynllun.
- Cynllun Amddiffyn yr Arfordir Traeth Crugan (Ymgynghoriaeth) - derbyniad o £259,000 grant Amddiffyn Is-adeiladwaith Arfordirol tuag at y gwaith adfer yn dilyn difrod llifogydd.
- Cynlluniau Gofal perthnasol i faes Oedolion (cynnwys Galluogi) (G12) a chynllun Offer ac Addasiadau (G5) - derbyniad o grant o £250,000 a £216,000 drwy Gronfa Gofal Canolraddol Llywodraeth Cymru.
- Cynllun Cronfa Buddsoddi'n Lleol (Economi ac Adfywio) - derbyniad o grant ychwanegol o £245,153 drwy Gronfa Buddsoddi'n Lleol Llywodraeth Cymru (WEFO), tuag at y rhaglen i hybu busnesau lleol.

2.3 Refeniw Adrannol a Chorfforaethol

Cynnydd o £345,643 mewn defnydd o refeniw adrannol i gefnogi'r cynlluniau yn 2014/15, yn cynnwys:-

- Cynllun Llwybr Beicio Pontllyfni i Aberdesach (Rheoleiddio) - £100,000
- Cynllun Llwybr Beicio a Cherdded Tywyn i Fachynlleth (Rheoleiddio) - £99,491
- Cynllun Llwybr Beicio o amgylch Llyn Tegid, Bala (Economi ac Adfywio) - cais am gefnogaeth grant perthnasol wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, ond yn y cyfamser fe ariennir drwy ddefnydd o arian refeniw gan yr Adran Rheoleiddio o £80,000.

2.4 Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill

Cynnydd o £223,912 mewn defnydd o gronfeydd, yn cynnwys:-

- Cynllun Ffridd Elin, Abermaw (Ymgynghoriaeth) - ychwanegiad o £133,392 o gronfa benodol.
- Cynllun Systemau Gysylltu a Gwasanaeth Gofal Cwsmer (Oedolion, Iechyd a Llesiant) - defnydd o £68,500 o gronfa penodol.
- Adnewyddu Biniau Gwastraff ac Ailgylchu (Priffyrdd a Bwrdeistrefol) - defnydd o £22,020 o gronfa adnewyddu benodol.

2.5 Argymhelliad

Gofynnir i'r Cabinet dderbyn y rhaglen gyfalaf diwygiedig ar gyfer 2014/15 i 2016/17, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu berthnasol (para. 2.2 i 2.4 uchod), sef:

- cynnydd £4,216,000 mewn defnydd o grantiau,
- cynnydd £345,643 mewn defnydd o gyfraniad refeniw, a
- cynnydd £223,912 mewn defnydd o gronfeydd.

3 NEWID MEWN PROFFILIAU GWARIANT CYNLLUNIAU

3.1 Ail-Broffilio o 2014/15 i 2015/16

Mae rhaglen waith tair cynllun gwerth cyfanswm o £840k wedi'i ail-broffilio o eleni i'r flwyddyn ariannol nesaf, fel a ganlyn:-

- Amgueddfa ac Oriol Gwynedd ac Addasu Adeiladau (Economi a Chymuned) - £339k.
- Ad-leoli Gwasanaeth Dydd Segontiw (Oedolion Iechyd a Llesiant) - £301k.
- Rhaglen Waith Technoleg Gwybodaeth (Cyllid) - £200k.

3.2 Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled mewn grant neu adnodd ariannu arall i'r Cyngor. Er hynny, diau y bydd yr Aelodau Cabinet perthnasol awydd bodloni eu hunain fod rhesymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio a bod y gwasanaethau yn isafu unrhyw effaith negyddol ar eu cwsmeriaid perthnasol.

3.3 Bu gwir wariant o ychydig dros £4.1 miliwn, sef oddeutu 8.4% o'r gyllideb am 2014/15, hyd at ddiwedd mis Mehefin 2014.

ADRODDIAD I'R CABINET

15 Gorffennaf 2014

Aelod Cabinet: Y Cyngorydd R. H. Wyn Williams

Pwnc: Trefniadau Rhanbarthol a Lleol i Ddiogelu Plant ac Oedolion

Swyddog cyswllt: Marian Parry Hughes

Y penderfyniad a geisir

I ofyn i'r aelodau gytuno ar y strwythur arfaethedig ar gyfer y Bwrdd Cymunedau Diogel sydd i'w alw'n Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru.

Barn yr aelod lleol

Dim yn berthnasol

Cyflwyniad

Mae Byrddau Lleol Diogelu Plant yn bartneriaethau statudol. Mae bwriad y Byrddau Lleol Diogelu Plant i gydlynu a sicrhau effeithiolrwydd gweithgareddau diogelu'r partneriaid wedi'i ymgorffori yn Neddf Plant 2004. Mae Rheoliadau yn ehangu ar swyddogaethau BLIDP ac yn nodi aelodaeth y Bwrdd.

Mae tri Bwrdd Diogelu Plant isranbarthol wedi'u sefydlu ers peth amser yng Ngogledd Cymru: BLIDP Gwynedd a Môn, BLIDP Conwy a Sir Ddinbych a BLIDP Sir y Fflint a Wrecsam. Yn ychwanegol, mae Grŵp Polisiâu a Gweithdrefnau rhanbarthol wedi bod yn cynhyrchu polisiâu i ogledd Cymru am dros 10 mlynedd. Yn dilyn cyhoeddiadau gan Lywodraeth Cymru yn yr hydref, 2011, mae'r tri BLIDP isranbarthol wedi cymryd camau i hyrwyddo mwy o integreiddiad a chydweithrediad ac i symud tuag at strwythur rhanbarthol o flaen y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau sefydlu byrddau diogelu rhanbarthol. Diffinnir y

rhanbarthau yn unol ag ôl troed y Bwrdd Iechyd Lleol. Gogledd Cymru yw'r rhanbarth sydd wedi'i diffinio i'n hardal ni.

Bu system ddwy-haen o Fyrddau Diogelu mewn bodolaeth yng ngogledd Cymru ers dechrau 2013. Sefydlwyd bwrdd rhanbarthol ond roedd y swyddogaethau statudol yn parhau yn nwylo'r tri Bwrdd Lleol Diogelu Plant isranbarthol. Cafodd y system ddwy-haen lwyddiannau ond bu hefyd densiynau.

Mabwysiadwyd dull rhanbarthol gan y rhan fwyaf o ranbarthau eraill yng Nghymru er bod llawer wedi symud tuag at fyrddau rhanbarthol yn gyfan gwbl ac wedi rhoi'r gorau i gynnal byrddau lleol. Cafodd y model ddwy-haen a'r model rhanbarthol llawn eu gwerthuso gan Brifysgol Sheffield ac mae adroddiad manwl ar cais.

Mewn ymateb i'r gwersi a ddysgwyd o weithredu'r system ddwy-haen, erbyn hyn bwriedir sefydlu strwythur sy'n cadw presenoldeb lleol cryf tra hefyd yn datrys y tensiynau rhwng y byrddau rhanbarthol a'r byrddau lleol. Y bwriad yw y bydd y swyddogaethau statudol yn aros gyda Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (BDPGC) ac y bydd grwpiau isranbarthol yn sicrhau bod ymarfer lleol yn diwallu'r angen lleol.

Goblygiadau O Ran Adnoddau

Bydd symud tuag at ddull gweithredu rhanbarthol yn gwneud defnydd mwy effeithiol o amser staff ac adnoddau.

Risgiau A Chyswllt Â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol

Yn amlwg, mae'r risg y byddwn yn methu â diogelu plant yn greiddiol ac fe'i nodir yn y gofrestr risg gorfforaethol a'r gofrestr risg gwasanaeth. Mae'n hanfodol ein bod yn chwilio am ddatrysiadau sy'n sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaethau diogelu mwyaf diogel ac addas i blant a theuluoedd yr awdurdod. Bydd yn rhaid i ni gydnabod cryfder y rhaglen ranbarthol yn enwedig gweithio ochr yn ochr â'n partneriaid rhanbarthol megis yr Heddlu ac Iechyd, sydd hefyd a chyfrifoldebau clir i amddiffyn a diogelu plant.

Gyrwyr A Goblygiadau

Mae diogelu plant yn cefnogi cynllun blaenoriaeth corfforaethol Gwynedd 'Bydd Pobl Fregus yn cael eu hamddiffyn a byddant yn gallu byw mor annibynnol â phosib' a Deiliant 7 o'r Cynllun Mawr 'Cadw Pobl yn Ddiogel'.

Mae Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn ofyn statudol ac yn cyfrannu tuag at gyflwyno chyfrifoldebau'r Cyngor tuag at blant bregus.

Ymgynghoriad

Cyflwynwyd yr adroddiad amgaaeedig i Fwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar 25 Ebrill. Mae'r bwrdd yn gefnogol i'r dull gweithredu.

Mae'r adroddiad amgaaeedig yn ehangu ar y crynodeb hwn.

Rhesymau dros argymell y penderfyniad

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor wedi paratoi'n dda er mwyn cefnogi'r gofyn yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a hefyd er mwyn datblygu'r datrysiad gorau i ogledd Cymru yn seiliedig ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio.

Ystyriaethau perthnasol

Cytuno ar strwythur y BDP rhanbarthol a elwir yn Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru, fel y dengys Diagram 2 o'r adroddiad amgaaeedig a bydd hyn yn weithredol cyn gynted â phosib.

Camau nesaf ac amserlen

Barn y swyddogion statudol

Y Prif Weithredwr:

Mae'r maes diogelu plant ac oedolion yn amlwg yn un eithriadol o bwysig ac mae angen sicwydd ar y Cyngor bod y trefniadau rhanbarthol a lleol yn gwneud pob dim posib i sicrhau diogelwch tra'n gwneud y defnydd gorau o adnoddau. Mae'r cynigion sydd gerbron wedi bod yn destun trafodaethau eang iawn ac fe'u cyflwynir i'r Cabinet ar y sail bod hynny oll yn ei le.

Y Swyddog Monitro:

Ychwanegir unrhyw sylwadau yn y cyfrafod.

Y Pennaeth Cyllid:

Mae'r Pennaeth Adran Plant wedi cadarnhau na fydd unrhyw gostau un tro (e.e. diswyddiadau) ynghlwm â'r penderfyniad gerbron (cytuno ar strwythur

Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru). Ymhellach, ar hyn o bryd, nid yw'n rhagweld y bydd unrhyw ymrwymadau ariannol parhaol ychwanegol ychwaith. Nodaf o'r adroddiad bydd "dull gweithredu rhanbarthol yn gwneud defnydd mwy effeithiol o amser staff ac adnoddau". Os gellid crisialu unrhyw arbediad, yna byddai'n cyfrannu tuag at wireddu'r targed adrannol

Atodiadau

Papur Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Papur Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

1. Cefndir

1.1 Mae Byrddau Lleol Diogelu Plant yn bartneriaethau statudol. Mae bwriad y Byrddau Lleol Diogelu Plant i gydlynu a sicrhau effeithiolrwydd gweithgareddau diogelu'r partneriaid wedi'i hymgorffori yn Neddf Plant 2004. Mae Rheoliadau yn ehangu ar swyddogaethau'r BLIDP ac yn nodi aelodaeth y Bwrdd.

1.2 Mae tri Bwrdd Diogelu Plant isranbarthol wedi'u sefydlu ers peth amser yng ngogledd Cymru. BLIDP Gwynedd a Môn, BLIDP Conwy a Sir Ddinbych a BLIDP Sir y Fflint a Wrecsam. Yn dilyn cyhoeddiadau gan Lywodraeth Cymru yn yr hydref 2011, mae'r tri BLIDP isranbarthol wedi cymryd camau i hyrwyddo mwy o integreiddiad a chydweithrediad ac i symud tuag at strwythur rhanbarthol o flaen y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

1.3. Yn ogystal, mae'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn bwriadu gosod diogelu oedolion mewn sefyllfa statudol gyffelyb i'r un ar gyfer plant, gan gynnwys y gofyn am Fyrddau Diogelu Oedolion.


2. Strwythurau Rhanbarthol ac Isranbarthol Peilot yng Ngogledd Cymru

2.1. Datblygwyd argymhellion gan Gadeiryddion, Is-gadeiryddion a Rheolwyr Busnes Byrddau Lleol Diogelu Plant Gogledd Cymru i dreialu strwythur rhanbarthol dwy haen. Cytunwyd ar hyn gan y tri BLIDP yn ystod 2012 ac roedd y strwythur dwy haen yn ystyried yr angen i:

- adlewyrchu anghenion lleol, diwylliant ac iaith,
- cynnal trefniadau llywodraethu gydag Aelodau Etholedig yn yr Awdurdodau Lleol,
- cefnogi Cyfarwyddwyr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau

O fewn y strwythur dwy haen, roedd atebolrwydd am ddiogelu plant yn aros gyda'r byrddau lleol sydd wedi parhau i adrodd drwy Gyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Aelodau Etholedig ym mhob ardal awdurdod lleol. Sefydlwyd y Bwrdd Rhanbarthol ym mis Ionawr 2013 er mwyn rhoi cyfeiriad strategol, gan gynnwys cyfarwyddo pedwar grŵp rhanbarthol i ymgymryd â rhai o swyddogaethau'r byrddau. Dangosir y strwythur dwy haen hwn yn Niagram 1 isod:

Diagram 1 Strwythur dwy haen presennol Byrddau Lleol Diogelu Plant Gogledd Cymru (Ionawr 2013 - Ebrill 2014)



2.2. Mae'r pedwar is-grŵp rhanbarthol wedi datblygu'n dda ac mae eu llwyddiannau allweddol yn cynnwys:

- gwerth ychwanegol mewn craffu polisiâu a gweithdrefnau a rhaglen i gysoni gweithdrefnau mewn pum maes ymarfer yn ystod 2014/15;
- hyfforddiant ychwanegol ar gyfer pobl broffesiynol i ymgymryd ag adolygiadau ymarfer plentyn, creu adnodd o staff cymwys gyda'r hyder i adolygu achosion sy'n ymwneud â niwed sylweddol a hwyluso digwyddiadau dysgu
- rheolaeth gref a llwyddiannus o drefniadau Adolygiad Ymarfer Plentyn gyda dau adolygiad ymarfer plentyn estynedig a phedwar fforwm amlasiantaethol proffesiynol ar y gweill wedi'u staffio gan bobl broffesiynol o bob rhan o'r rhanbarth
- dadansoddiad o anghenion hyfforddiant manwl a nododd bod pum pwnc maes i gysoni hyfforddiant fyddai'n cael ei ddatblygu a'i gyflwyno yn y rhanbarth yn ystod 2014/15.
- cynhadledd ranbarthol llwyddiannus iawn ynglŷn â Thrais Domestig, a fynychwyd gan 200 o bobl broffesiynol o ystod eang o asiantaethau ar draws y rhanbarth ble roedd 99% o'r ymatebwyr wedi dweud y byddent yn rhannu'r hyn yr oeddynt wedi'i ddysgu gyda'u cydweithwyr.

2.3. Tra bod y strwythur dwy haen wedi bod yn llwyddiannus mewn sawl agwedd mae hefyd wedi creu tensiynau.

- Bu pwysau cynyddol ar gapasiti uwch gynrychiolwyr wrth i aelodaeth cyrff rhanbarthol gael ei ddyblygu ar lefel rhanbarthol a lleol.
- Nid oedd y bwrdd rhanbarthol yn gallu symud ymlaen mor gyflym ag yr hoffai ar faterion megis cyllido, cefnogi busnes a sefydlu blaenoriaethau rhanbarthol.
- Gall BLIDP isranbarthol ymateb yn wahanol i gyfathrebu o'r bwrdd rhanbarthol.
- Mae pryderon nad yw'r bwrdd rhanbarthol a'i raglen yn gallu bodloni anghenion lleol yn ddigonol o ran gwahaniaethau diwylliannol a materion lleol.
- Mae staff ar lefel rheolaeth weithredol / rheolwr tîm yn teimlo ymhell o'r Bwrdd Diogelu a bod diffyg cyfeiriad.
- Teimlo ymhell oddi wrth y penderfyniadau a'r cyfeiriad; mae is-grwpiau lleol yn parhau i osod eu rhaglenni eu hunain.

2.4. Bu cynnydd yn natblygiad trefniadau rhanbarthol ac isranbarthol i ddiogelu oedolion ble mae'r strwythurau yn parhau ar lefel yr awdurdod lleol mewn pedwar o'r chwe ardal awdurdod lleol. Yr eithriad yw Gwynedd a Môn sydd â Bwrdd Diogelu Oedolion ar y Cyd.

3. Gwerthuso'r model dwy haen

3.1. Roedd model peilot dwy haen gogledd Cymru yn un o ddau strwythur rhanbarthol a ddewiswyd i gael ei werthuso gan Brifysgol Sheffield ar ran Grŵp Polisi Diogelu Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CCGCC) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) Bydd y gwerthusiad yn cyfrannu tuag at ysgrifennu canllawiau yn dilyn ymddeddiad Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

3.2. Roedd astudiaeth werthuso'r CCGCC a'r CLILC hefyd yn cynnwys arolwg dilyn i fyny o aelodau'r holl fyrddau Cymreig a daethpwyd i'r casgliad bod ymroddiad a brwdfrydedd yn bodoli a fydd yn sicrhau bod Byrddau Diogelu Plant (BDP) rhanbarthol yn effeithiol ac yn diogelu ac yn hyrwyddo lles plant. Yn fwy na hyn, roedd aelodau'r gwahanol BDP rhanbarthol ar draws Cymru yn cydnabod bod buddiannau o gyfuno BLIDP i ffurfio BDP rhanbarthol. Mae'r buddiannau hyn yn cynnwys:

- lleihau dyblygu
- mwy o gysondeb ymarfer
- mwy o gydweithio effeithiol
- systemau diogelu safonol

3.3 Yn ogystal, roedd ymatebwyr yr arolwg wedi adrodd bod nifer o heriau yn wynebu BDP ac roedd y rhan fwyaf yn adlewyrchu'r tensiynau a welwyd yng ngogledd Cymru. Cwblhawyd adroddiad gwerthuso'r CCGCC a'r CLILC yn gynnar ym mis Ebrill ac ers hynny cafodd ei hanfon i Lywodraeth Cymru, y Panel Ymgynghorol Diogelu ac AGGCC. Un o'r negeseuon a anfonwyd i Lywodraeth Cymru yw'r angen i adlewyrchu diwylliant, iaith a phryderon lleol.

3.4 Adroddodd Jan Horwath, yr ymchwilydd o Brifysgol Sheffield, ar ganfyddiadau'r astudiaeth werthuso i'r BDP rhanbarthol yn ei gyfarfod datblygol ar 8 Ebrill 2014. Mae copïau o'r adroddiad ymchwil ar gael ar gais.

3.5 Yn ogystal, mae Panel Diogelu Annibynnol Cymru wedi ystyried cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Byrddau Diogelu Plant ac mae wedi gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys:

- bod rôl, capasiti, hyfforddiant a datblygiad unedau busnes diogelu yn cael eu sefydlu mewn rheoliadau
- dylai fframwaith gyllido ar gyfer y Byrddau Diogelu gael ei bennu yn y rheoliadau
- yr Awdurdod Lleol ddylai weithredu fel y Partner Arweiniol i Fyrddau Diogelu Oedolion a Byrddau Diogelu Plant.

Gellir gweld yr adroddiad llawn

yn: <http://wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/guidance1/listening/?skip=1&lang=cy>

4. Strwythurau Rhanbarthol ac Isranbarthol Diwygiedig Arfaethedig

4.1. Defnyddiodd BDP rhanbarthol gogledd Cymru ganfyddiadau astudiaeth werthuso'r CCGCC /CLILC ac adroddiad y Panel Diogelu Annibynnol i gyfarwyddo'r drafodaeth ac i wneud penderfyniadau yn ystod ei ddiwrnod datblygol ar 4 Ebrill 2014.


4.2. Mae'r BDP rhanbarthol yn cydnabod bod angen lleihau dyblygu rolau, cyfrifoldebau a chynrychiolaeth ar lefelau rhanbarthol ac isranbarthol wrth gynnal mecanwaith i gyflwyno cyfeiriad rhanbarthol ac ymgysylltiad pobl broffesiynol ar lefel lleol. Datblygwyd strwythurau diwygiedig drafft yn y sesiwn datblygol ac yna fe'u hystyriwyd ac fe'u cytunwyd yn ffurfiol yng nghyfarfod rhanbarthol y BDP ar 8 Ebrill 2014. Mae'r strwythur diwygiedig arfaethedig yn rhoi cyfrifoldeb ac atebolrwydd ar y bwrdd rhanbarthol ac yn disodli'r BLIDP isranbarthol gyda grwpiau darparu diogelu lleol. Bydd y gynrychiolaeth ar y lefel a gyfarwyddir yn y statud ar y BDP Rhanbarthol ac ar lefel Pennaeth Gwasanaeth / Rheolwr Gweithredol ar y grŵp darparu lleol. Gweler y strwythur diwygiedig lleol yn Niagram 2 isod:

4.3 Mae'r strwythur diwygiedig yn mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd yn wreiddiol:

- Cefnogir anghenion lleol a diwylliant ac iaith drwy'r grwpiau darparu diogelu lleol
- Gall Cyfarwyddwyr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol barhau i adrodd wrth Aelodau Etholedig mewn ardaloedd Awdurdodau Lleol
